# Ateb – Pa wlad?

Mae'r ddau lun wedi eu tynnu ar Ynysoedd y Philipinau adeg y Nadolig.

Pobl Ynysoedd y Philipinau sy'n dathlu'r Nadolig am y cyfnod hiraf bob blwyddyn, mae'n debyg. Maen nhw'n dechrau'n gynnar iawn – ym mis Medi – ac yn gorffen ym mis Ionawr Yn ystod y dyddiau sy'n arwain at y Nadolig, maen nhw'n mynd i naw offeren. Mae'r bobl sydd yn Llun 1 newydd ddod allan o un o'r gwasanaethau hyn (rydych chi'n gallu gweld yr eglwys yn y cefndir) ac maen nhw'n prynu pethau Nadoligaidd yn y farchnad.

Mae'r ail lun yn dangos dinas Tacloban Ynysoedd y Philipinau, gafodd ei difrodi ar ôl teiffŵn yn 2013. Mae'r seren yng nghanol y llun yn bwysig iawn i bobl Ynysoedd y Philipinau adeg y Nadolig. "Parol" yw'r enw arni ac mae pobl yn hongian y sêr yma ymhobman dros y Nadolig. Mae rhai syml yn cael eu gwneud o bapur, ond mae rhai llawer mwy soffistigedig i'w gweld hefyd. Chwiliwch am enghreifftiau ar y we. Mae'r parol yn y llun yn cynrychioli baner Ynysoedd y Philipinau.